Syniadau A.G.

Tymor yr Haf 2010 *Pris £1.00*

Mrs Adele Thomas,Ysgol Babyddol Bishop Vaughan, Abertawe

CYFEILLGARWCH

Mae myfyrdod yn rhan oll bwysig o'r wers AG. Gall annog disgyblion i eistedd yn dawel a meddwl yn ofalus am bwnc arbennig. Drwy weithgareddau sy'n dilyn gall disgyblion fynegi eu syniadau a'u teimladau a gall hybu hunan werth yn y disgyblion ac ymddiriedaeth rhwng athro a disgybl. Ar gyfer gweithgaredd myfyriol, dylai'r disgyblion eistedd yn gyfforddus mewn awyrgylch fydd yn caniatáu iddynt fyfyrio, efallai gyda, cherddoriaeth addas. Thema'r rhifyn hwn yw 'Cyfeillgarwch' -mae'n cynnwys gweithgaredd o fyfyrio. Mae yn bwysig i ddilyn y gweithgaredd yma gyda 'r disgyblion er mwyn iddynt archwilio yn drylwyr yr hyn sydd yn cael ei drafod.

Syniadau i gychwyn gwers.

Chwarae tiwn Or rhaglen deledu 'Friends'(I'll be there for you') Gofyn i'r disgyblion i'w nabod a dyfalu'r thema.

Dangos darn o 'r rhaglen 'Friends' sydd yn dangos gwir gyfeillgarwch - y disgyblion i adnabod gwir elfennau cyfeillgarwch.

Disgyblion i drafod nodweddion gwir gyfeillgarwch - mewn parau – ac adrodd yn ôl i weddill y dosbarth.

GÊM GARDIAU

Yma fe welwch nodweddion geir mewn ffrind. Rhowch set o gardiau i bob grŵp a gofyn iddynt ddewis y nodweddion maent yn eu hoffi ei weld mewn ffrind a'r rhai nad ydynt yn hoffi eu gweld.

RHANNU GYDA MI	DWEUD CELWYDD AMDANAF
DOD I NGWELD PAN WYF YN SÂL.	FY NGWNEUD YN HAPUS
FY HELPU PAN RWY'N METHU	CWERYLA GYDA MI
FY NGWNEUD YN DRIST	MEDDWL AMDANAF BLE BYNNAG YR YDYM
CHWERTHIN AR FY MHEN	FY MARNU
SIARAD AMDANAF YN FY NGHEFN	MADDAU I MI.

Cwestiynau i ddilyn:

- Ydy'n hawdd rhoi'r cardiau mewn dau grŵp? Pam?
- Ydy'n nhw'n ffitio yn hawdd i un o'r ddwy golofn? Dwedwch pam..

Gweithgaredd!

Rhannwch y disgyblion i grwpiau , yna roi i bob grŵp wahanol stori o'r Testament Newydd - fydd yn dangos cyfeillgarwch, i'w hactio. Dyma rai fedrwch eu defnyddio.

- ***Tawelu'r Storm (Mathew 8: 23-27)*** *Iesu yn gofalu am ei ffrindiau yn eu hawr o argyfwng . Mae hon yn dangos fod yn rhaid i ni roi ein ffydd yn ein gilydd ac yn Iesu.*
- ***Ffrindiau Annisgwyl (Ioan 4: 1-42)***
  Gall ffrindiau weithiau fod yn arwynebol a gall ffrindiau cywir ddod o leoedd annisgwyl iawn.
- ***Y Chaf o'r Parlys (Mathew 9: 1-8)***
  Mae ffrindiau'r dyn yn dangos amynedd a dyfalbarhad, ac hefyd ddewrder yn eu ymdrech i helpu dyn sydd yn bwysig iawn iddynt.

MYFYRDOD AR GYFEILLGARWCH

Caewch eich llygaid ac ymlaciwch. Gwrandewch ar y synau y tu allan ond peidiwch â gadael iddynt eich trwblo chi. Fe wnawn ychydig o ymarferion anadlu yn awr i wneud yn siŵr fod pawb wedi ymlacio. Anadlwch i mewn am 3 munud a chyfri tri, daliwch eich gwynt ac yna anadlu allan a chyfri tri. (Gwnewch hyn sawl gwaith). Gwnewch ddwrn o'ch dwylo - yna dychmygwch eich bod yn rhoi popeth drwg ac annifyr yn y dyrnau yma. Pan fyddwch yn ymlacio byddwch yn taflu'r pethau drwg yma i gyd - ac yna byddwch yn dawel. (Rhowch gyfarwyddiadau ar gyfer ymlacio pan fydd y disgyblion wedi cael digon o amser i gasglu eu meddyliau). Parhewch gyda'r anadlu gan ymlacio am ychydig funudau (efallai byddai chwarae cerddoriaeth dawel yn helpu yma).

Teimlwch eich hunan yn disgyn i gwmwl mawr cynnes. Mae'n mynd â chi i fyny ac allan o'r ysgol. Mae'n mynd â chi drwy'r awyr, dros y dinasoedd a'r gwledydd, tir a môr. Yn y diwedd mae'n eich rhoi i lawr yn yr ardd brydferth yma. Rydych yn eistedd ar fainc yn yr ardd - fe welwch goed ffrwythau yn siglo yn yr awel, byddwch y teimlo yn gynnes a diogel. Bydd adar yn hedfan yn y coed, glöyn byw yn hofran dros y blodau. Byddwch yn anadlu'r blodau o'ch cwmpas - edrychwch ar yr ardd yma.

Mae dau berson yn eistedd dan gysgod coeden - y naill yn gwrando yn astud ar yr hyn ddywed y llall. Rydych yn dechrau gwrando are eu sgwrs - maent yn siarad am gyfeillgarwch. 'Mae ffrind gwir bob amser yn deall pan fyddaf angen rhywbeth' dwedodd un . 'a phan wyf angen cyngor, maen nhw bob amser yna'. Dwedodd y llall ' Cytuno. Mae gwir ffrind bob amser am helpu drwy'r adegau anodd. Bydd ffrind da yn chwerthin gyda chi, ac yn crio gyda chi. Bydd yn gwybod am eich beiau, ond yn eich caru beth bynnag'. Byddwch yn troi oddi wrth y bobl yma ac yn cychwyn meddwl - meddwl am eich ffrind gorau - dyma'r person sydd yn chwerthin ac yn crio gyda chi, sydd yn eich cysuro pan fyddwch yn drist, ac yn eich helpu gyda'ch gwaith cartref. Mae'n bwysig cael pobl fel hyn. Treuliwch ychydig o funudau yn meddwl am y ffrind yna.

Pan fyddwch yn edrych i fyny bydd y ddau berson wedi diflannu, ond bydd rhywun arall yn y pellter. Mae'r person yma yn cerdded tuag atoch, ac fel mae'n agosáu gwelwch fod ganddo wên fawr ar ei wyneb. Ie… dyma Iesu Grist! Rydych yn aros ar y fainc ac mae'n dod i eistedd wrth eich ymyl. Mae'n cyffwrdd â'ch llaw ac yn dweud eich enw. Rydych yn gwenu arno ac yntau yn gwenu'n ôl. Mae'n dechrau siarad â chi. Mae'n dweud:' **Rwy'n dy garu di. Rwy'n ceisio dweud wrthyt yn yr awyr las ac yn y caeau gwyrdd. Rwy'n ei sibrwd yn nail y coed a'i anadlu yn lliwiau'r blodau. Rwy'n ei weiddi allan i ti yn afonydd y mynyddoedd; rwy'n rhoi caneuon cariad i'r adar. Rwy'n dy ddilladu gyda haul cynnes ac yn rhoi aroglau persawr yn yr awyr. Mae fy nghariad atat cyn ddyfned â'r môr ac yn fwy na'r angen dyfnaf yn dy galon. Rwy'n gwybod popeth amdanat. Rwy'n gwybod am dy holl lwyddiannau a dy fethiannau. Rwyf gyda thi bob amser a byddaf gyda thi yn wastad. Rwy'n dy garu cymaint fy mod wedi marw drosot. Rwy'n gyfaill i ti. Rwyf wedi dy ddewis di.**

Rydych yn gwrando yn astud ac yna yn ateb. Cymerwch ychydig o funudau i siarad ag Iesu. (Rhowch ychydig o funudau o dawelwch i'r disgyblion iddynt sgwrsio a'r Iesu yn eu meddwl). Mae'n cyffwrdd â'ch dwylo eto, ac yn dweud ei fod yn eich deall. Gwelwch ei fod yn hapus gyda chi - cariad yn disgleirio yn ei lygaid. Mae'n amser i chi fynd erbyn hyn - dwedwch wrtho… mae'n gwenu eto yn troi yn ôl ac yn gadael.

Rydych yn eistedd am funud ar y fainc yn meddwl dros yr hyn ddwedodd Iesu. Rydych yn sylweddoli mai dyma'r ffrind gorau all unrhyw un ei gael. Rydych yn edrych o gwmpas yr ardd eto, ac yn gweld cariad Iesu ym mhobman. Rydych yn teimlo eich hun yn syrthio yn ôl i'r cwmwl cynnes. Mae'n mynd â chi o'r ardd, yn ôl drwy'r awyr, dros y dinasoedd, y gwledydd , tir a môr. Mae'n dod a chi yn ôl i'r ysgol ac yn eich rhoi yn esmwyth ar y llawr. Pan ydych yn barod, agorwch eich llygaid, ac eisteddwch i fyny.

Cwestiynau i ddilyn:

- Pwy oedd y ffrind gorau oeddech chi yn feddwl amdano ?
- Pa fath o emosiwn oeddech chi'n ei deimlo tuag at y person yna?
- Sut oeddech chi yn teimlo wrth weld yr Iesu yn cerdded tuag atoch?
- Beth oeddech chi yn feddwl am yr hyn ddwedodd wrthych?
- Beth ddwedoch chi wrtho ?
- Sut oeddech chi yn teimlo wrth feddwl cymaint oedd o yn eich caru chi?
- Sut oeddech chi yn teimlo pan adawodd?
- Ydy ei ymweliad wedi eich newid o gwbl?
- Sut ydych chi'n teimlo rŵan?

COEDEN WEDDI

Rhowch ddarn o bapur i'r disgyblion – ar ffurf deilen. Ar hwn gallant ysgrifennu gweddïau neu fyfyrdodau neu enw eu ffrind gorau.

Yna gallwch greu 'coeden weddi'.

Gweithgaredd i ddilyn:

Gall disgyblion wneud poster / baner yn dweud:

'Mae ffrind cywir yn gwybod am eich ffaeleddau i gyd – er hynny yn eich caru'

NEU 'Byddaf gyda chi bob amser'

ADNODDAU MAGC (Mudiad Addysg Grefyddol Cymru)

Catalog Adnoddau, Cyhoeddiadau ac ôl gopïau o *'Syniadau AG'* ar gael.
Cyhoeddiadau Cynradd - *Pobl Arbennig – mewn ffydd a gweithred* **;** *Adegau Arbennig; Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn; Iesu - Ei bwysigrwydd i gredinwyr; Mannau Arbennig - Eu harwyddocâd i gredinwyr*
Cyfres Ymchwilio i Themâu: *Ymchwilio i Gredoau* ac *Ymchwilio i Gwestiynau Dyrys.*
NEWYDD yn SAESNEG *Amazing Lives* (ar gael yn Gymraeg – *Am Bobl* –Huw J Hughes)
Cyhoeddiadau Uwchradd – *What the Welsh Churches say on moral and social issues; Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chymdeithasol.*
Cyffredinol*: More than Just RE* (CEMW Annual Lectures)
Disgownt ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu ac i fyfyrwyr
Cysyllter â: Sali Roberts, MAGC, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH SY20 9EX (Tel/Ffacs: 01654 - 761 697) e bost: sali@patshyn.fsnet.co.uk

© MAGC 2010